

RHYBUDD o Benderfyniadau'r cyfarfod hybrid o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar ddydd Llun, 28 Medi, 2026

Yn Bresennol : Y Cynghorydd Sonia Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Non Dafydd, Douglas M Fowlie, John Ifan Jones, Euryrn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Dylan Rees a Margaret Murley Roberts

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Alun Roberts - Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo.

Y Dirprwy Brif Weithredwr

Hefyd yn Bresennol: Aelodau Portffolio

Y Cynghorydd Neville Evans - Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones - Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd;
Y Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg;
Y Cynghorydd Ieuan Williams - Aelod Portffolio Prifffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd;
Y Cynghorydd Robin Williams - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer.

Mr Dyfed Edwards – Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (yn gysylltiedig ag eitem 3);
Mr Paul Andrew - Cyfarwyddwr Gweithgareddau Gofal Integredig (y Gorllewin) – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (yn gysylltiedig ag eitem 3);
Mr Tom Regan - Tîm Iechyd Meddwl – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (yn gysylltiedig ag eitem 3).

Mr Jim Lee – Cadeirydd y Nifty60's

(10.00 o'r gloch yb - 12.20 o'r gloch yp)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 Craffu Partneriaethau Strategol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD derbyn y cyflwyniad gan gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd.

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor - 2026/2027
PENDERFYNIAD	PENDERFYNWYD:- • Cytuno'r fersiwn gyfredol o'r blaen rhaglen waith ar gyfer 2026/2027; • Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r blaen raglen waith.